# Cyngor Cymuned Llanystumdwy

## Cofnodion Rhaglen waith y Cyngor – nos Iau, 1af o Fai 2025 yn brydlon am 7:00 y.h. yn Neuadd Llanystumdwy a drwy Zoom (roedd yn bosib cael mynediad i'r cyfarfod drwy gysylltu ar ebost gyda'r Clerc).

**Yn bresennol** y Cynghorwyr (Cadeirydd) Aled Lloyd Evans, Anwen Jones, Sian Angharad Parry, Tegid Jones, Aled Davies, Delyth Parry, Dylan Thomas, Miriam Williams, Rhys Tudur, Dewi Thomas, Euros Jones, Angela Williams a'r Clerc.

**Ymddiheuriadau** – Cynghorwyr Darren Morley a Gareth O. Davies.

## Cyfarfod Blynyddol (yn cychwyn 7.00 y.h. am yr 20 munud cyntaf)

1. Croeso gan y Cadeirydd ac ymddiheuriadau.

2. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod blynyddol 9fed o Fai, 2024 - **Derbyn**.

3. Materion yn codi o'r cofnodion. **Dim**.

4. **Adroddiad ar waith y flwyddyn rhwng 1af o Ebrill, 2024 i'r 31ain o Fawrth, 2025 gan y Cadeirydd, Cynghorydd Aled Lloyd Evans**.

Ym mis Medi 2024 penderfynodd y Cynghorydd Margaret Griffith, Ward Llanarmon roi'r gorau iddi, ar ol dros 36 o flynyddoedd o wasanaeth a phrofiad helaeth.

Fis Hydref 2024, fe groesawyd y Cynghorydd Dewi Thomas, yn gynghorydd dros Ward Llanystumdwy.

Rydym yn parhau i gyfarfod wyneb yn wyneb, gyda'r opsiwn o fod yn rhithiol bob tro drwy gymorth y Cynghorwyr Aled Davies a Tegid Jones.

Fe wnaed yr holl waith arferol o wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio, gwaith cynnal a chadw ar y llwybrau a'r cae chwarae.

Diolchwyd i'r Clerc a phawb am ei gwaith a'i cymorth tra bu'n Gadeirydd.

5. **Adroddiad Ariannol am y flwyddyn 1af o Ebrill, 2024 i'r 31ain o Fawrth, 2025 gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.**

Dechrau Ebrill 2024 roedd cyfanswm o £17,206.04 gennym yn y 2 cyfrif, sef £12,525.99 yn y cyfrif cyfredol a £4,680.05 mewn cyfrif cadw.
Erbyn diwedd Mawrth 2025 roedd y cyfanswm yn £16,214.77 yn y 2 cyfrif.
Fe dalwyd £2000.00 o grant gan Gronfa Park-Jones tuag at wefan newydd Cof Eifionydd, yn nol iddynt, oherwydd na fu'n bosib creu y wefan.
Roedd y praesept yn £20,000.00 llynedd.

- Derbyniwyd ad-daliad TAW o £306.36 llynedd, ac eleni bydd y swm yn £563.16.
- Derbyniwyd ad-daliad o £417.80 gan Cyngor Gwynedd am waith ar y llwybrau, sef yr un ffigwr a'r flwyddyn cynt.

- Derbyniwyd £5276.67 gan gwmni Lightsource a oedd yn £138.50 yn fwy na'r flwyddyn cynt.
- Y prif wariant yn ystod y flwyddyn oedd:-
- Talu £1490.00 am beintio'r offer yng nghae chwarae Troed y Garn, Llangybi.

Yn ystod y flwyddyn fe dalwyd £7,439.72 o daliadau o'r cyfrif cyfredol tuag at geisiadau am gymorth ariannol, a oedd yn cynnwys arian Lightsource. Roedd hyn y cynnwys talu am gyswllt Wifi yn Capel Pencaenewydd, Neuadd Chwilog, mynwentydd lleol, cylch meithrin, clybiau, mudiadau lleol, ac Eisteddfod Chwilog.
Yn ogystal a hyn talwyd am farbio'r llwybrau, cadw'r cae chwarae yn daclus, glanhau'r llochesi bws, a talwyd £2,000.00 tuag at gadw'r toiledau yn Llanystumdwy.
Fe wnaeth yr archwilwyr mewnol ac allanol gadarnhau fod popeth yn iawn hefo'r archwiliad wnaethant.
Y bwriad yw parhau hefo'r drefn o anfon y gyllideb/cyfrifon bob mis cyn y cyfarfod i gadw golwg ar y gwariant.
Diolchodd y Clerc i'r Cadeirydd a'rCynghorwyr i gyd am ei cymorth yn ystod y flwyddyn i hwyluso ei gwaith.

6. Cyfle i'r trethdalwyr ofyn cwestiynau - neb yn bresennol.

7. Ethol swyddogion am y flwyddyn mis Mai, 2025:
   a) **Cadeirydd – Cynghorydd Anwen Jones (**wedi llofnodi datgan derbyn swydd).
   b) **Is gadeirydd -Cynghorydd Euros Jones (**wedi l**l**ofnodi datgan derbyn swydd).
   c) **<u>Clerc a Swyddog Ariannol Cyfrifol</u>** – Bethan Parry Jones aros yr un fath/dim newid.
   ch) **<u>Elusen William Ellis</u>**, Llanystumdwy - Cynghorwyr Ward Llanystumdwy i gyd.

8. Cadarnhau nad oes angen newid unrhyw aelodaeth o bwyllgorau'r Cyngor ar hyn o bryd - ei cadw fel ag y maent.

9. Dewis cynrychiolydd i:-
Pwyllgor Rhanbarth Un Llais Cymru – Cynghorydd Aled Lloyd Evans ac Anwen Jones.
Grwp Mynediad Dwyfor – Cynghorydd Dylan Thomas.

10. **<u>Polisiau</u>** – mae pob polisi wedi cael ei adolygu fis Mehefin 2021, ac mae ambell un arall wedi cael ei ddiweddaru ers hynny, fel Polisi Costau a Threuliau Aelodau, Polisi Iaith/Asesiad Risg a Rheolau Sefydlog, mae'r gweddill yn iawn. Mae Un Llais Cymru wedi awgrymu ei fod yn beth da i adolygu'r holl bolisiau allweddol bob 4 neu 5 mlynedd. Mae Un Llais Cymru wedi creu Rheoliadau Ariannol newydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, felly bydd angen creu polisi newydd yn ystod yr wythnosau nesaf i gynnwys y newidiadau yma. **<u>Derbyn</u>**.

**<u>Diolchwyd i'r Cadeirydd Aled Lloyd Evans a'r Clerc am ei gwaith yn ystod y flwyddyn.</u>**

## CYFARFOD ARFEROL Y CYNGOR (i gychwyn tua 7:20 y.h.)

## Rhaglen waith y Cyngor – nos Iau, 1af o Fai 2025 tua 7:20 y.h. yn Neuadd Llanystumdwy, a drwy Zoom.

1. **Ymddiheuriadau**- gweler uchod.
2. **Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar 3ydd o Ebrill 2025** – derbyn.
3. **Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS Ebrill 2025.**
4. **Datgan buddiant personol – neb.**

**Materion gan Cyngor Gwynedd**

5. **Ceisiadau cynllunio sydd angen penderfyniad - dim**

6. **Cwmni Williams a Williams, Melin Plas Du, Y Ffor, Pwllheli**.
Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) Cymru 2012.
Cyhoeddusrwydd ac ymgynghoriad cyn gwneud cais am ganiatâd cynllunio.
Cais i adeiladu adeilad derbyn a storio gwastraff, tirlunio a gwaith ategol. Mae angen gwneud sylwadau erbyn 05.05.2025.
**Gofynwyd i'r Clerc ei hysbysu nad oedd sylwadau na gwrthwynebiad i'w cais.**

7. **Sedd wag yn Ward Llanarmon – bydd diweddariad erbyn mis nesaf**.

**Materion yn y gymuned**.

8. **Llanystumdwy**
a) **Bin halen – Caerffynnon** – derbyniwyd gwybodaeth gan Gareth Roberts, Peiriannydd Ardal Dwyfor yn cadarnhau fod yr adran yn mynd i gynnal arolwg o'r safle er mwyn sicrhau ei fod yn addas ar gyfer bin halen, sef adnabod lleoliad priodol, gwastad a dirwystr i'w osod. Byddant wedyn yn ei archebu, a threfnu i'w osod a'i lenwi cyn y gaeaf. Gan y byddent yn archebu nifer o finiau halen ac yn mynd drwy broses tebyg mewn sawl lleoliad yn Nwyfor, mae'n bosib y gwnaiff gymeryd rhai misoedd cyn gwelwn y bin halen yn ei le.

b) **Caffi Dwyfor** – pryderon am gyflwr y safle- cytunwyd mai peidio gwneud dim fyddai orau o dan yr amgylchiadau.

c) **Eglwys Llanystumdwy** – llawer o eiddew yn tyfu dros y ffenestri a'r wal allannol o gwmpas y fynwent. **Clerc i anfon ebost.**

ch) **Gorymdaith Carnifal Llanystumdwy 20.06.2025**
Cais gan Osian Roberts ar ran Y Plu. Maent yn bwriadu cynnal gorymdaith carnifal arall eleni felly byddant angen cyflwyno cais i Cyngor Gwynedd er mwyn cau y ffordd yn swyddogol. Fel llynedd, wrth wneud y cais yma trwy'r Cyngor Cymuned, ni fydd Cyngor Gwynedd yn codi tâl am gau y ffordd. **Cefnogi**.

9. **Rhoslan/Ynys**
Derbyniwyd gwybodaeth fod coeden wedi gogwyddo allan i'r lôn o goedwig Coed Caradog, ger Betws Fawr, adeg storm Darragh, ac erbyn hyn mae yn pwyso ar y linnell ffôn. Mae'n beryg y daw i lawr eto a phwyso mwy ar y gwifrau ffôn a'i torri. Wedyn bydd dim cysylltiad wifi i dai i fyny'r ffordd. Clerc eisioes wedi cysylltu hefo Cyngor Gwynedd ac wedi **derbyn ateb yn dweud fod yr Arolygwr Ffyrdd wedi ymweld â'r safle. Dywedwyd er nad oedd y risg i'r gwifrau llinnell ffon yn fater i'r Cyngor gall y goeden amharu ar y brifffordd petai'n syrthio. Bydd y Gwasanaeth felly yn cysylltu hefo'r tirfeddianwr perthnasol gan gyflwyno llythyr rhybudd coed iddynt**.

10. **Chwilog**
11. **Pencaenewydd/Sardis**
12. **Llangybi**

13. **Hysbysfyrddau angen staen arnynt** – bydd y gwaith wedi cael ei wneud yn fuan.

14. **Materion Ariannol**
Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.
Roedd y Clerc wedi anfon ebost at y cynghorwyr i gyd cyn y cyfarfod, drwy gynnwys dogfen 'excel'o'r sefyllfa ariannol hyd at 30.04.2025. Mae hyn yn cadw golwg manwl ar y gwariant sydd eisioes wedi ei wneud.
Y Clerc hefyd wedi gwneud y datganiadau cyfrifyddu a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol o flaen y cyfarfod, er mwyn iddynt gael ei cymeradwyo gan y Cyngor a'i llofnodi yn dilyn y cyfarfod, wedyn gellir anfon y manylion at yr archwilwyr mewnol.

15. **Gwaith ar y llwybrau, Mai 2025 ymlaen**.

a. Llwybr swyddogol o Ffynnon Cybi i ben Garn Bentyrch, un toriad.
b. Llwybr dan bont y rheilffordd i'r traeth yn Afonwen, dau doriad.
c. Llwybr heibio Ynysgain Bach hyd at bont y rheilffordd, dau doriad.
ch.Llwybr o'r ffordd fawr i fyny at fythynnod Tŷ Newydd, dau doriad.
d. Llwybr Clawdd Llanw o Bontfechan dros y rheilffordd am Ty'n Morfa, dau doriad.
dd.Ceg y llwybr ar hen ffordd Abercin, ochr y pentref i'r ffordd osgoi.
e. Cadw safle bedd D. Lloyd George yn daclus yn ystod y tymor.
f. Maenywern, Llanystumdwy – gwaith clirio tir y Cyngor ger y bont ac ar hyd y wal i fyny tuag at y Bedd.
***Hysbyseb wedi cael ei roi ar y wefan, a'r Ffynnon i gael prisiau, hefo dyddiad cau 30.04.2025, er mwyn ei trafod yn y cyfarfod ar y 1af o Fai 2025.***

ff. **Cytundeb torri Cae Chwarae Llangybi** (cytunwyd i wneud cytundeb o flwyddyn rhwng 01.05.2024 - 30.04.2025 llynedd yn hytrach na 3 mlynedd).
Derbyniwyd 2 dendr, ac fe basiwyd i rannu'r gwaith, sef Mr Alan Adams i wneud y Cae Chwarae am y ddwy flynedd nesaf tan Hydref 2026, llwybr Garn Bentyrch (a), a Maenywern, Llanystumdwy (f) am flwyddyn.
Gofynwyd i'r Clerc ofyn am bris i wneud safle bedd D.Lloyd George yn daclus am y tymor gan Mr Gareth Jones.
Cytunwyd i ofyn wrth Mr Rhys Jones i wneud gweddill y llwybrau am y tymor, sef b, c, ch, d,dd (uchod).

g. **Glanhau 9 lloches bws** – y Clerc wedi gofyn am brisiau gan 3 cwmni, Spick 'n' Span, Criccieth Cleaning a Tracey Jane Cleaning Services. Derbyniwyd 2 bris, a **cytunwyd i ofyn wrth Criccieth Cleaning wneud y gwaith am 2 flynedd rhwng Mai 2025 hyd at 31.03.2027.**

16. **Praesept** – wedi derbyn yr hanner cyntaf, sef £10,250.00 ar 01.05.2025.

17. **Cyflog Clerc** – Ar sail gohebiaeth a dderbyniwyd gan NALC drwy Un Llais Cymru a SLCC ar 25.10.2024, derbyniwyd tabl graddfeydd cyflog ar gyfer clercod. Ar hyn o bryd mae'r tabl yma dal i fod yn gyfredol. Mae cyflog y Clerc yn cychwyn ar rif 22 – 28, o'r raddfa cenedlaethol SCP.
Felly, mae cyflog y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol o Ebrill 1af, 2025 ymlaen yn symud i fyny ar y raddfa cyflog, o **pwynt 24 i pwynt 25, sef o £17.79 i £18.26 yr awr, x 35 awr y mis = £639.10**.
Mae cyflog y Clerc yn ol y cytundeb cyflogaeth yn datgan:-

1. **"Cyflog**
2. "Ar yr amod fod eich perfformiad yn foddhaol, byddwch yn symud yn awtomatig drwy'r raddfa gyflog trwy godiadau blynyddol hyd nes ichi gyrraedd uchafbwynt y raddfa. Bydd eich codiad cyflog cyntaf yn daladwy ar 1 Ebrill 2019 ac wedi hynny ar 1af Ebrill bob blwyddyn hyd nes ichi gyrraedd uchafbwynt y raddfa. Gall y Cyngor ddal codiad cyflog yn ôl os bernir fod eich perfformiad yn is na'r disgwyl, yn dilyn adolygiad blynyddol."
3. "Yn dilyn cyfarfod Pwyllgor Amodau Gwaith 22.11.2023 cytunwyd i gynyddu cyflog y **Clerc a Swyddog Ariannol Cyfrifol o'r 01.01.2024 i bwynt 23, sef £16.67 yr awr sef ar raddfa LC2 cenedlaethol SPC rhwng pwynt 22 – 28**. Bydd yn codi bob Ebrill wedyn hyd nes cyrraedd uchafbwynt y raddfa,cyn belled a bod y performiad gwaith yn foddhaol".

**Cytunwyd i godi cyflog y Clerc i pwynt 25, a bod y gwaith yn foddhaol.**

18. **Diffibriliwr Pencaenewydd**
Y Clerc wedi cysylltu hefo Mr Tomos Hughes, Cydlynydd Cymuned SaLC Gogledd Cymru i gael manylion i archebu padiau ar gyfer ZOLL AED PLUS. Derbyniwyd anfoneb gan Defib Store, a derbyniodd y Clerc gadarnhad gan y Cadeirydd i dalu'r anfoneb drwy BACS, cyn gynted a phosib, oherwydd nad oes gan y Cyngor gerdyn banc i wneud taliad. **Mae'r padiau wedi cael ei anfon yn syth at Mr Ifor Davies, ac mae wedi ei gosod ym Mhencaenewydd**.

19. **Taliadau** BACS angen cael ei gwneud yn dilyn y cyfarfod:

| **Enw/Rheswm** | Rheswm | Pris £ | TAW | Cyfanswm Taliad £ | Taliad BACS £ |
|---|---|---|---|---|---|
| ICO | Drwy ddebyd uniongyrchol ar 22.05.2025 | **52.00** | | **52.00** | **52.00** |
| Capel Pencaenewydd | Llogi festri 06.02.2025, 06.03.2025 a 03.04.2025 | **60.00** | | **60.00** | **60.00** |
| *Defib Store Ltd* | *Padiau defib Pencaenewydd (46813)* *Wedi cael caniatad i dalu 20.04.2025 drwy ebost gan y Cadeirydd* | ***50.00*** | ***10.00*** | ***60.00*** | ***60.00*** |
| *Criccieth Cleaning* | *Glanhau llochesi bws Ebrill 2025* | ***204.40*** | ***40.88*** | ***245.28*** | ***245.28*** |
| *G.L.Jones (961)* | *Peintio mainc cae chwarae Llangybi* | ***125.00*** | ***25.00*** | ***150.00*** | ***150.00*** |

20. Cyflog mis Ebrill 2025 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM.

| **Enw/Rheswm** | Swm £ | Cyfanswm Taliad net £ | Taliad BACS:- £ |
|---|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol y Clerc, Ebrill 2025<br>35 awr y mis x £18.26 = £639.10 | 639.10<br>Llai treth- £127.82 =<br>**£511.28** | **511.28** | **511.28** |
| Cyllid a Thollau EM Treth ar enillion y Clerc Ebrill 2025<br>£623.00 x 20% = £127.82 | **£127.82** | **127.82** | **127.82** |
| Costau swyddfa Clerc Ebrill 2025 | **26.00** | **26.00** | **26.00** |

**Materion hwyr**

21. **Criccieth Cleaning** – derbyniwyd anfoneb ar 30.04.2025 a cytunodd y Cadeirydd i'w dalu y dilyn y cyfarfod – gweler manylion uchod (19).

22. **Mr G. L. Jones** – derbyniwyd anfoneb ar 01.05.2025 a cytunodd y Cadeirydd i'w dalu yn dilyn y cyfarfod -gweler manylion uchod (19).

23. **Enw newydd ar safle Maes Llwyd, Llanystumdwy** – derbyniwyd ebost gan Kirstie Eckford, Rheolwr Prosiect Datblygu, Cymdeithas Tai Gogledd Cymru, yn dweud ei bod bod yn y broses o gydweithio hefo adeiladu 6 o dai fforddiadwy newydd ar safle.
Roeddent yn cychwyn y broses o ddewis enw ar gyfer y stad newydd ond yn awyddus i drafod hefo'r Cyngor Cymuned yn gyntaf.

Wrth edrych ar hen fapiau roeddent yn gweld fod y safle ar dir oedd yn cael ei alw'n Gors Ychain neu Cae'r Ffordd yn y gorffennol. Felly, gofynwyd os oedd unrhyw awgrym fyddai yn addas ar gyfer y datblygiad. Cytunwyd y byddai'r Cynghorydd Miriam Williams yn cysylltu hefo Pennaeth Ysgol Llanystumdwy i weld os byddent yn medru ystyried enw addas hefo'r disgyblion. Clerc am hysybysu'r Rheolwr prosiect.

Cytunwyd mai ar y nos Iau **05.06.2025** fydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Llanystumdwy a drwy Zoom.